# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 12.09.18 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, David Griffiths, Malcolm Hills, John Griffiths, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Ian Williams, Louise Hughes.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11.07.18 fel rhai cywir.
   **Cynnig** – Malcolm Hills **Eilio** – Keith Carroll **Arwyddwyd** – Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (11.07.18):**
   a) **Tŷ Nant, Llwyngwril -** Ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r awdurdod cynllunio i'r ardal yma, er i Gyngor Gwynedd ofyn i ni lenwi "ffurflen gwyn" ynglŷn â'r ymholiad cynllunio yma.
   **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** - yn cadarnhau eu bod wedi derbyn sylwadau'r Cyngor Cymuned, ac y byddent mewn cysylltiad ar ôl gwneud ymchwiliad safle.
   **Cyngor Gwynedd** – yn cadarnhau fod Swyddog wedi bod yn ymchwilio'r safle.
   **Penderfyniad** ➞ trefnu ymchwiliad safle gydag aelod o'r Cyngor Cymuned â Swyddog o Gyngor Gwynedd.
   b) **Parc Cenedlaethol Eryri –** cyfarfod blynyddol gyda chynghorau cymuned yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi ➞ 02.10.18
   ➞ anfon y wybodaeth ymlaen i Ian Williams, i'w atgoffa.
   c) **Turnock Ltd -** derbyn cadarnhad ganddynt mai 3 llinyn ar wahân o oleuadau sydd ganddynt ar werth am **£116.00.**
   ➞ pawb yn cytuno i ohirio prynu goleuadau am y flwyddyn yma ac efallai prynu rhai LED yn y dyfodol.
   d) **Hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned –** ateb wedi ei dderbyn gan Glasdon UK yn cadarnhau eu bod yn gallu cynnig ffenestr bersbecs newydd i roi ar yr hen hysbysfwrdd (694mm x 964mm x 4mm) am **£47.24** + TAW
   ➞ mesur yr hysbysfwrdd erbyn y cyfarfod nesaf.

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Dail Dysynni –** llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y cyfraniad ariannol gan y Cyngor Cymuned = £25.00.
   b) **Marie Curie** (canolbarth a gogledd Cymru) – cais am gyfraniad ariannol
   **Penderfyniad** ➞ pawb yn cytuno cefnogi'r cais yma **= £50.00. Cynnig:** Kevin Goodchild **Eilio:** David Griffiths.
   c) **Cyngor Gwynedd** – derbyn cadarnhad y bydd y polyn sy'n dal y bin baw cwn yn cael ei newid wythnos nesaf.
   d) **Gatiau croesfan "Fairy Glen" -** cadarnhad wedi ei dderbyn gan reolwr croesfannau Network Rail ei fod wedi nodi'r sylwadau ynglŷn â'r gatiau, ac y bydd yn ymweld â'r safleoedd yn fuan i ymchwilio yn fwy manwl.
   e) **Cyngor Gwynedd -** gwybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â grantiau chwaraeon ar gael i grwpiau cymunedol
   ➞ posteri i'w rhoi ar yr hysbysfwrdd.
   f) **Parc Cenedlaethol Eryri –** derbyn gwybodaeth ynglŷn ag Ymgynghoriad Cychwynnol Cynllun Eryri:
   cynllun rheolaedd newydd - 09.07.18 - 30.09.18.
   g) **Grŵp Cynefin -** adroddiad blynyddol 2017/18 wedi ei dderbyn.
   h) **Japanese Knotweed -** derbyn ateb gan Gyngor Gwynedd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnig eu cyngor, a gwybodaeth ar eu polisïau nhw ar sut i ddifa'r chwyn yma mewn pentrefi.
   Gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Mr Mike Senior ynglŷn â grŵp cymunedol mae wedi sefydlu yn y pentref i geisio delio hefo, a difa'r Japanese Knotweed yn Llwyngwril. Cais wedi ei dderbyn am gymorth ariannol tuag at y prosiect.
   **Penderfyniad** ➞ mae'r aelodau yn hapus i gefnogi'r prosiect ond nid yw'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i allu helpu yn ariannol oherwydd mai cyfrifoldeb y tirfeddiannwr yw'r Japanese Knotweed sy'n tyfu ar dir preifat, a'u cyfrifoldeb nhw ydi atal y chwyn rhag lledaenu i eiddo cyfagos.
   **Pawb yn cytuno i wahodd Mr Mike Senior i'r cyfarfod nesaf (Mis Hydref) i drafod y mater ymhellach.**

6. **<u>Materion Cynllunio</u>:** Dim.

7. **<u>Adroddiad Ariannol</u>:** Adolygiad ariannol wedi ei wneud.
   Derbyniwyd Adroddiad Mis Gorffennaf/Awst 2018 yn gywir.
   **Cynnig –** Kevin Goodchild **Eilio –** Geraint Edwards **Arwyddwyd –** Huw Davies.

   a) **Praesept 2018-19 ➞** manylion taliad am £4,900.00 – wedi ei dalu i gyfrif y Cyngor Cymuned ar 28.08.18.
   b) **Cyflog a Chosta'r clerc ➞** Cyflog = £1,140.00 // Costa = £200.00 = **£1,340.00.**
   c) **Archwiliad Allanol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31.03.2018 wedi ei gwblhau gan Archwilwyr BDO**
      - **Ffurflen Flynyddol 31.03.18** - wedi ei chyflwyno i'r cyngor, ac wedi cael ei derbyn a'i chymeradwyo gan aelodau'r Cyngor Cymuned.
      - **Adroddiad Materion yn codi –** wedi ei chyflwyno i'r cyngor. Un mater mân wedi ei nodi.
      - **Hysbysiad Diwedd yr Archwiliad ➞** i gael ei harddangos ar yr hysbysfwrdd Llwyngwril a Rhoslefain ac ar y wefan am 14 diwrnod (12.09.18 ➝ 27.09.18), gyda'r wybodaeth angenrheidiol ar gael os byddai unrhyw un yn dymuno eu harchwilio.

8. **<u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:</u>** Dim.

9. **<u>Adroddiad y Cynghorydd Sirol</u>:** Dim yn bresennol.

10. **<u>Unrhyw Fater Arall</u>:**
   a) **Llwybr ger Mynwent y Crynwyr –** nodwyd fod arwyddion newydd wedi eu rhoi i fyny ger y groesfan gan NWR
      **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol o hyn a gofyn :-
      - A yw'r llwybr yma wedi ei gofnodi fel hawl tramwy cyhoeddus?
      - Oes hawliau wedi eu sefydlu dros y blynyddoedd mae'r llwybr wedi bod yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd?
   b) **Cae Chwarae, Llwyngwril -** nodwyd fod "graffiti" ar y sleid fawr yn y cae chwarae
      - nodwyd fod Japanese Knotweed yn y cae chwarae.
   c) **Pwyllgor Y Ganolfan, Llwyngwril –** nodwyd for Keith Carroll yn ymddiswyddo fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned, ar bwyllgor Y Ganolfan, a bod Malcolm Hills wedi rhoi ei enw ymlaen i'r swydd.
   d) **"Yarnbombers" yn Llwyngwril -** nodwyd nad oedd gan y Cyngor Cymuned broblem hefo'r grŵp gwau nag hefo'r addurniadau gwau o amgylch y pentref, (wedi i Malcom Hills ofyn os oedd problem??).
   e) **Llwybrau Cyhoeddus –** nodwyd fod ambell gamfa angen sylw ➝ llwybr cyhoeddus ger Pant Gwyn, Llwyngwril a llwybr cyhoeddus ger Parth y Gwyddwch, Llwyngwril
      **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol o hyn.
   f) **Arwyddion Defibrillator -** nodwyd fod pump arwydd newydd wedi cael eu gwneud a'u cyfrannu i'r pentref ➝ dim gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned i gael un o'r arwyddion yma i fyny ar ffens y cae chwarae.
   g) **Panel Annibyniaeth Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol –** aelodau wedi derbyn y wybodaeth o flaen llaw
      **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i dderbyn yr opsiwn "costau a dynnir o ran teithio a chynhaliaeth".

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 10.10.18 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan</u>

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**